

national
slate
museum
amgueddfa
lechi
cymru



mynediad

gweithgareddau 1-6

national
museum
wales
amgueddfa
cymru



mynediad 1

termau

tiwtor

Nod: Dysgu prif dermau'r chwarel â'u cysylltu â lluniau.

Camau

1. Dysgu'r geiriau ochr-yn-ochr â'r lluniau.
2. Paru'r cardiau wrth y lluniau mawr.

Iaith


Lle mae'r _____?

Dyma'r _____.

O.N. Mae'r geiriau **saethu'r graig** a **chwythu'r graig** yn golygu'r un peth. Mae'r cyntaf yn fwy cyffredin yn Chwarel Bethesda a'r ail yn Chwarel Dinorwig.

Gwyllo ffilm


Gwyllo ffilm gynnar o chwarelwyr yn gweithio ar y graig.



mynediad 1

termau

dysgwr




ponc, y bonc

*the name used
for the galleries
excavated from the
side of the mountain*



chwythu'r graig

to blast the rock



piler/i

*a technical term
for a pillar of rock
extracted from the
mountain*



clwt

*the pillars were
formed into smaller
pieces before being
carried down the
mountain*



holiti

to split the slates

mynediad 1


termau

dysgwr



naddu

*to shape the slate
into uniform sizes*



y wal

*technical term for
the smaller, open-
sided sheds where
the slate was split*



offer

equipment



arfau

*the term used by the
quarrymen to refer
to their tools*

mynediad 1

termau

dysgwr

y bonc

chwythu'r graig

piler

clwt

hollti

naddu

offer

arfau

y wal

chwarel

mynediad 2

dod i nabod y safle

tiwtor

Nod: Crwydro o gwmpas er mwyn dod i nabod y safle, darllen ychydig ar y paneli, dysgu geirfa ac ymarfer cwestiynau syml.

Camau

1. Edrych ar y daflen ac egluro'r dasg
2. Peidio ag egluro'r geiriau dieithr – mae angen iddyn nhw edrych ar y paneli.
3. Gofyn iddyn nhw ddod i Stafell Padarn ar amser penodedig i adrodd yn ôl.



mynediad 2

dod i nabod y safle

dysgwyr

Dyma fap o'r Amgueddfa Lechi yn y Gilfach Ddu.

Cerddwch o gwmpas y safle gan chwilio am yr adeiladau canlynol a rhoi'r rhifau ar eich map.


(Walk around the Museum looking for the following buildings and then note the numbers on your map.)

Darllenwch y paneli i ddallt yr eirfa.

(Read the information panels to understand the vocabulary.)

1. Tŷ'r Prif Beiriannydd
2. Yr Olwyn Ddŵr
3. Y Neuadd Bŵer
4. Y Caffi
5. Tai Fron Haul
6. Tap dŵr Tai Fron Haul
7. Y Toiledau Cyhoeddus
8. Y Caban
9. Y Ffowndri
10. Y Cwt Holhti a Naddu

Mae'n bosib i chi ofyn am help, e.e. Lle mae Tai Fron Haul?
Be ydy enw'r adeilad yma?



mynediad 3

chwilio'r safle

tiwtor

Nod: Defnyddio iaith syml i chwilio am wahanol bethau ar y safle.

Camau

1. Edrych ar y daflen ac egluro'r dasg.
2. Dylai peth o'r eirfa fod yn gyfarwydd ar ôl gwneud y dasg gyntaf.
3. Bydd angen iddyn nhw ofyn am help i gael hyd i rai o'r pethau.
4. Gofyn iddyn nhw ddod i Stafell Padarn ar ôl amser penodedig i adrodd yn ôl.

mynediad 3

chwilio'r safle

dysgwr

Ewch o gwmpas y safle i chwilio am y pethau canlynol. Nodwch lle maen nhw. (Walk around the site looking for the following objects. Note where they are.)



Y Ffowntan (gwreiddiol a newydd)

Offer chwythu/saethu'r graig

Dresel

Cragen

Model o'r inclein

Patrwm y ffenestri

Hen deledu

Una

Mangyl

Organ

Cofiwch ofyn am help:

Lle mae Una?

Ydy Una yn yr adeilad yma?

Be ydy cragen?

Oes 'na gragen yn yr adeilad yma?

Gofynnwch i'ch ffrindiau:

Wyt ti wedi gweld y mangyl?

Lle mae'r mangyl?

mynediad 4

y caban a'r chwarelwyr

tiwtor

Nod: Darllen y panel, ymweld â'r Caban a thrafod y tasgau

Camau

1. Edrych ar y daflen. Bydd angen mynd dros yr eirfa cyn cychwyn y tro hwn.
2. Gofyn iddyn nhw ddod yn ôl ar ôl amser penodedig i drafod.

mynediad 4

y caban a'r chwarelwyr

dysgwr

Darllenwch y panel ac atebwch y cwestiynau.
(*Read the information panel and answer the questions.*)

Pryd oedd y dynion yn mynd i'r Caban?

Beth oedden nhw'n wneud yno?

Smocio
Sgwrsio
Cysgu
Bwyta
Cael paned
Chwarae cardiau
Chwarae pêl droed
Canu
Trefnu corau
Trefnu gemau pêl-droed
Trafod gwleidyddiaeth

Lle oedd y prentisiaid yn eistedd?

Pa ddillad sy yma?

Dach chi'n licio'r esgidiau?

Dach chi wedi gwisgo esgidiau hoelion mawr?

Geirfa

trefnu	-	to organise
côr/corau	-	choir/s
trafod	-	to discuss
gwleidyddiaeth	-	politics
dillad	-	clothes
esgidiau hoelion mawr	-	hob nailed boots



mynediad 5

tai Fron Haul

tiwtor

Nod: Ymweld â Thai Fron Haul a chyflawni tasgau syml. Sgwrsio amdanynt wedyn.

Camau

1. Edrych ar y daflen ac egluro'r dasg.
2. Rhannu'n dri grŵp llai – un i fynd i bob tŷ ac ateb y cwestiynau.
3. Ymweld â'r ddau dŷ arall yn sydyn i gael syniad am y lle.
4. Mynd yn ôl i Stafell Padarn i drafod y tai mewn grwpiau o dri.



mynediad 5

tai Fron Haul

dysgwr

Dyma bedwar tŷ chwarelwr o Danygrisiau ger Blaenau Ffestiniog. Maen nhw'n dangos gwahanol gyfnodau yn hanes ardaloedd y chwareli.

(This is a row of four quarrymen's houses from Tanygrisiau near Blaenau Ffestiniog. They are furnished to show different periods in the history of the area.)

Rhif 4 - Tŷ Addysg

Rhif 3 - Tŷ o Danygrisiau yn 1861

Rhif 2 - Tŷ o Fethesda yn 1901

Rhif 1 - Tŷ o Lanberis yn 1969

Wrth fynd o gwmpas y tai atebwch y cwestiynau hyn:

	Rhif 3	Rhif 2	Rhif 1
Sawl stafell sy yn y tŷ?			
Oedd 'na ddŵr yn y tŷ?			
Oedd 'na fwyd yn y tŷ?			
Lle oedden nhw'n paratoi'r bwyd?			
Lle oedden nhw'n coginio'r bwyd?			
Lle oedd y toiled?			
O le oedd y golau'n dod?			

Ar ôl ateb y cwestiynau ewch yn ôl i Stafell Padarn i drafod efo'ch tiwtor a'ch grŵp.

mynediad 6

sesiwn golchi yn y tai

tiwtor

Nod: Cymryd rhan mewn sesiwn grŵp i drafod offer golchi

Camau

1. Mynd a'r grŵp i'r Tŷ Addysg, rhif 4 Fron Haul. Yno bydd y Swyddog Addysg yn cynnal gweithdy ymarferol, yn cynnwys cyfle i drin a thrafod rhai o'r pethau yn y tai, yn arbennig ynglŷn â golchi dillad. (Bydd angen bwcio sesiynau efo'r Swyddog Addysg ymlaen llaw.)
2. Ar ddiwedd y sesiwn mynd a'r grŵp yn ôl i Stafell Padarn i drafod.

